

**MEMORANDWM CYDSYNIAD DEDDFWRIAETHOL ATODOL
(MEMORANDWM RHIF 5)**

**BIL DADREOLEIDDIO: DIWYGIAD MEWN PERTHYNAS Â DEDDF CYCHOD
PYSGOTA PRYDEINIG 1983, DEDDF PYSGODFEYDD 1868 A DEDDF
PYSGODFEYDD 1891**

1. Gosodwyd y Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol hwn o dan Reol Sefydlog (“RhS”) 29.2. Mae RhS29 yn pennu bod yn rhaid gosod Memorandwm Cydsyniad Deddfwriaethol, ac y ceir cyflwyno Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru os bydd un o Filiau Seneddol y DU yn gwneud darpariaeth sy’n ymwneud â Chymru i ddiben sy’n dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Cynulliad Cenedlaethol, neu sy’n ei addasu.

2. Cyflwynwyd y Bil Dadreoleiddio (y “Bil”) yn Nhŷr Cyffredin ar 23 Ionawr 2014. Mae’r Bil i’w weld yn:

<http://services.parliament.uk/bills/2013-14/deregulation.html>

Crynodeb o’r Bil a’i Amcanion Polisi

3. Noddir y Bil gan Swyddfa’r Cabinet. Amcan polisi Llywodraeth y DU ar gyfer y Bil yw diddymu neu leihau beichiau rheoleiddio diangen sy’n amharu ar fusnesau, unigolion, gwasanaethau cyhoeddus neu’r trethdalwr, neu sy’n costio arian iddynt.

4. Mae’r Bil yn cynnwys mesurau sy’n ymwneud â meysydd cyffredinol a phenodol o ran busnes, cwmnïau ac ansolfedd, defnyddio tir, tai, trafndiaeth, cyfathrebu, yr amgylchedd, addysg a hyfforddiant, adloniant, awdurdodau cyhoeddus a gweinyddu cyfiawnder. Mae’r Bil yn rhoi dyletswydd ar y rhai sy’n arfer swyddogaethau rheoleiddio penodol i ystyried buddioldeb hybu twf economaidd. Bydd y Bil hefyd yn diddymu deddfwriaeth nad yw mwyach o ddefnydd ymarferol.

Darpariaethau yn y Bil y ceisir cydsyniad ar eu cyfer

5. Gofynnir am gydsyniad y Cynulliad ar gyfer y diwygiad, a gyflwynwyd gan Arglwydd Wallace o Saltaire yn y Senedd ar 15 Hydref, a fydd yn diddymu Deddf Cychod Pysgota Prydeinig 1983, Deddf Pysgodfeydd 1868 a Deddf Pysgodfeydd 1891 (ac yn gwneud y diwygiadau canlyniadol angenrheidiol). Mae manylion y diwygiad yn y chweched rhestr o Ddiwygiadau wedi’i gosod mewn trefn, diwygiad rhif 92, i’w cynnig yn yr Uwch-Bwyllgor a gyflwynwyd yn y Senedd ar 8 Tachwedd 2014.

6. Mae Deddf Cychod Pysgota Prydeinig 1983 i’w diddymu yn ei chyfanrwydd. Roedd Deddf Cychod Pysgota Prydeinig 1983 yn galluogi deddfwriaeth pysgodfeydd i gael ei chymhwyso a’i gorfodi. Mae’n gwahardd pysgota am bysgod môr a thrawslwytho gan gychod pysgota Prydeinig neu o’r cychod hynny mewn ardaloedd a bennir yn y gorchymyn a wnaed gan Awdurdodau Pysgota’r DU oni fydd y cychod hynny’n bodloni amodau rhagnodedig. Mae’r Ddeddf wedi ei disodli gan fod

cyfyngiadau ar bysgota a thrawslwytho bellach yn cael eu gosod o dan Ddeddf Pysgod Môr (Cadwraeth) 1967 neu'n cael eu gorfodi o dan ddeddfwriaeth arall sy'n gweithredu Cyfraith yr UE. Yng Nghymru (ac yn Lloegr), mae adran 30(1) o Ddeddf Pysgodfeydd 1981 (fel y'i diwygiwyd gan Ddeddf y Môr a Mynediad i'r Arfordir 2009), bellach yn darparu ar gyfer gorfodi'r rhan fwyaf o rwymedigaethau pysgodfeydd yr UE.

7. Mae Deddf Pysgodfeydd 1868 i'w diddymu yn ei chyfanrwydd. Mae Deddf Pysgodfeydd Môr 1868 yn gweithredu Confensiwn rhwng y DU a Ffrainc a deddfwriaeth ddiwygiedig y DU ynghylch pysgodfeydd. Mae'r Ddeddf bellach wedi ei disodli. Mae'r rhan fwyaf o ddarpariaethau Deddf 1868 eisoes wedi eu diddymu gan mai cyfraith yr UE sydd bellach yn llywodraethu pysgodfeydd yn yr Undeb Ewropeaidd a chaiff pysgodfeydd y DU eu rheoleiddio o dan ddeddfwriaeth ddilynol.

8. Mae Deddf Pysgodfeydd 1891 i'w diddymu yn ei chyfanrwydd. Roedd Deddf Pysgodfeydd 1891 yn gweithredu Datganiad Rhyngwladol rhwng y DU a Gwlad Belg mewn perthynas â Physgodfeydd Môr y Gogledd ac yn gwneud diwygiadau i'r gyfraith mewn perthynas â physgodfeydd môr a physgodfeydd eogiaid a dŵr croyw. Mae'r Ddeddf wedi ei disodli gan mai cyfraith yr UE sydd bellach yn llywodraethu pysgodfeydd Môr y Gogledd a deddfwriaeth ddomestig ddilynol sydd bellach yn llywodraethu pysgodfeydd môr a physgodfeydd eogiaid a dŵr croyw.

9. Mae pob un o'r tair Deddf wedi eu disodli gan ddeddfwriaeth ddomestig ac Ewropeaidd fwy diweddar. Yn wir mae'r Deddfau'n cynnwys rhai darpariaethau nad ydynt mwyach yn cydymffurfio â'n rhwymedigaethau i'r UE. Mae'r Deddfau felly yn ddiangen a dylid yn awr eu diddymu.

10. Mae'r holl ddarpariaethau a amlinellir uchod yn berthnasol mewn cysylltiad â Chymru.

11. Nid yw'r diwygiadau a wneir i'r Bil Dadreoleiddio (h.y. i ddiddymu'r tair Deddf pysgodfeydd hyn a gwneud newidiadau canlyniadol) yn cynnwys pwerau i Weinidogion Cymru i wneud is-ddeddfwriaeth. Er mwyn cyflawnder, mae Deddf Cychod Pysgota Prydeinig 1983 yn cynnwys grym i wneud is-ddeddfwriaeth y caiff Gweinidogion Cymru ei arfer mewn perthynas â Chymru a pharth Cymru.

12. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn bod y darpariaethau hyn (i'r graddau y mae'r darpariaethau hyn yn berthnasol i Gymru) yn dod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol Cynulliad Cenedlaethol Cymru i'r graddau y maent yn ymwneud â physgodfeydd a Physgota o dan baragraff 1 o Ran 1 o Atodlen 7 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006.

Manteision defnyddio'r Bil hwn yn hytrach na deddfwriaeth y Cynulliad

13. Mae Llywodraeth Cymru o'r farn ei bod yn briodol ymdrin â'r darpariaethau hyn ym Mil Dadreoleiddio'r DU gan mai dyma'r dull deddfwriaethol mwyaf ymarferol a chymesur i alluogi'r darpariaethau hyn i fod yn berthnasol i Gymru. Mae'r diwygiadau arfaethedig i'r Bil Dadreoleiddio (a fydd yn diddymu'r tair Deddf pysgodfeydd hyn) yn dechnegol ac yn annadleuol, gan eu bod yn diddymu deddfwriaeth sydd wedi darfod, ac nad ydynt yn gwneud darpariaeth newydd o sylwedd. Yn ogystal, mae natur ryng-gysylltiedig y systemau pysgodfeydd gweinyddol perthnasol yng Nghymru a Lloegr yn golygu mai'r cam mwyaf effeithiol a phriodol yw bwrw ymlaen â'r diwygiadau hyn ar yr un pryd yn yr un offeryn deddfwriaethol.

Goblygiadau ariannol

14. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i Lywodraeth Cymru.

Carl Sargeant, AC
Y Gweinidog Cyfoeth Naturiol
Tachwedd 2014